# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth

## Dydd Iau 20 Ionawr 2022

## Cofnodion Drafft

**Yn bresennol**

- Mark Isherwood AS (Cadeirydd)
- Deborah Smith, Wordsmith Communication (Ysgrifennydd)
- Jon Levett, NAFD
- Rachel Bradburne, NAFD
- Gordon Swan, Golden Charter
- Philip Blatchly, PR Blatchly & Son
- Martin Birch, Cyngor Dinas a Sir Caerdydd
- Lewis Clark, Tŷ Hafan
- Gill Tanner, Hosbis Dewi Sant
- Tracy Jones, Tŷ Hafan
- Mark Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Altaf Hussain AS
- Carol Humphreys, CFF
- Kate Edwards, Tiwtor a Llywydd NAFD
- Janette Bourne, Cruse Cymru
- Kim Bird, About The Funeral
- Emma Kneebone, 2 Wish Upon A Star
- Gemma O'Driscoll, GE O'Driscoll & Daughters
- Bethan Edwards, Marie Curie
- Terry Tennens, SAIF
- Y Cynghorydd Ryland Doyle, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Sam Swash, swyddfa Carolyn Thomas AS
- Gethin Rhys, Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

**Lleoliad y cyfarfod**

Rhithwir (ar Zoom)

**Croeso**

Croesawodd Mark Isherwood y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf 2022 – ac estynnodd groeso cynnes iawn i'r wynebau newydd i'r Grŵp:

- Gill Tanner, Hosbis Dewi Sant
- Bethan Edwards a Lowri Griffiths, Marie Curie
- Tracy Jones a Lewis Clark, Tŷ Hafan

Hefyd, fe roes y Grŵp Trawsbleidiol groeso i Mark Jones, gŵr Tracy, a oedd yn bresennol fel unigolyn er mwyn ei gynorthwyo yn ei rôl newydd yn gweithio ar wasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

**Ymddiheuriadau**

Ar ôl croesawu pawb i'r cyfarfod, nododd y Cadeirydd Mark Isherwood AS fod ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth:

- Stephen Tom, Phillip Tom & Sons
- Delyth Jewell AS
- Lynda Wallis, Cadeirydd Senedd Pobl Hŷn Cymru
- Jane Dodds AS
- James Tovey, Tovey Bros

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi eu dosbarthu cyn y cyfarfod.

Cynigiodd Janette Bourne y dylid cymeradwyo'r cofnodion gyda Jon Levett yn eilio. Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo drwy i'r aelodau godi dwylo.

**Materion sy'n codi**

Nododd Mark Isherwood gwpl o faterion sy'n codi, gan gynnwys pwysigrwydd i'r Grŵp ystyried materion cynaliadwyedd yn y dyfodol, yn dilyn y cyflwyniad yn y cyfarfod blaenorol gan Jon Cross o'r Grŵp Stiwardiaeth Amgylcheddol. Gofynnwyd i Deborah Smith rannu rhestr o siaradwyr posibl ar gyfer y dyfodol.

Hefyd, adroddodd yn ôl i'r grŵp ar gyfarfod o'r Grŵp Hollbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth yn San Steffan, sy'n cael ei gadeirio gan Syr John Hayes. Amlygodd faterion y mae'r grŵp hwnnw'n canolbwyntio arnynt, gan gynnwys:

- sefydlu gweithgor trawsadrannol i gysylltu trafodaethau ar angladdau a materion profedigaeth o fewn y llywodraeth yn well
- cydnabod y sector fel Ymatebwyr Categori 2 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl
- ymgyrch i ailddefnyddio beddau

Roedd y cyfarfod hefyd yn cynnwys trafodaeth â Gweinidog Profedigaeth newydd Llywodraeth y DU, Gillian Keegan AS. Er bod ganddi agenda a phortffolio hynod o amrywiol, pwysleisiodd fod gwella cymorth i deuluoedd mewn profedigaeth yn uchel ar ei hagenda a'i bod yn dda bod Aelodau Seneddol bellach yn ymwneud mwy â'r sector, o ganlyniad i'r pandemig.

Yn ôl Mark, yn ystod y drafodaeth honno, gwnaed sylw bod risg y byddai'r ffocws yn symud i ffwrdd o farwolaeth a phrofedigaeth wrth i fygythiad y pandemig encilio a bod angen ffocws parhaus a model ariannu cynaliadwy i gefnogi elusennau profedigaeth a dull trawslywodraethol o wella profiadau'r rhai sy'n galaru.

Cododd Mohamed Omer, trefnydd angladdau Mwslimaidd a chadeirydd y Cyngor Claddu Mwslimaidd, bryder ynghylch sicrhau cefnogaeth y Llywodraeth i wahanol grwpiau ffydd.

Tynnodd Mark sylw at fater a drafodwyd gennym yn flaenorol fel Grŵp Trawsbleidiol, yn ymwneud â diffyg cyfathrebu cymorth profedigaeth hygyrch - sef diffyg a all greu rhwystr i gymunedau lleiafrifoedd ethnig neu gymunedau ffydd sydd am gael cymorth sy'n sensitif i anghenion eu crefydd neu gymuned. Cytunodd y Gweinidog fod yn rhaid i ofal angladdau a phrofedigaeth fod yn gynhwysol.

Gwnaeth y cyfarfod hefyd drafod y syniad o ford gron weinidogol ar angladdau, a fyddai'n edrych ar faterion unigol ac yn cynnwys yr adran neu dîm polisi perthnasol yn y Llywodraeth. Er enghraifft, bord gron ar ôl y pandemig - gellid defnyddio'r cyfryw i ddylanwadu ar newidiadau ac amlygu gwersi a ddysgwyd o'r pandemig. Ceisiodd Mark sicrhau bod y Grŵp Trawsbleidiol yn cael cynrychiolaeth dda, pan fydd yn digwydd.

Cafodd y cyflwyniad arall, ar IFSO, ei draddodi gan y Gwir Anrhydeddus David Heath, cadeirydd y Sefydliad Safonau Angladdau Annibynnol. Nododd i IFSO gael ei greu mewn ymateb i adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar reoleiddio'r sector angladdau.

Nododd Mark y dylem wahodd IFSO i un o gyfarfodydd y Grŵp i roi cyflwyniad er mwyn deall yn well ei rôl a sut y bydd yn gweithredu. Cytunodd Deborah Smith i drefnu'r gwahoddiad hwn.

**Siaradwr: Dr Emily Harrop, Prifysgol Caerdydd**

Mae Dr Harrop yn ymchwilydd ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n gweithio ym maes gofal lliniarol, gyda chefndir yn y gwyddorau cymdeithasol. Rhoes ddiweddariad i'r cyfarfod ar y prosiect ar y cyd rhwng Prifysgolion Caerdydd a Bryste i ymchwilio i brofiadau o brofedigaeth yn ystod COVID-19.

Gofynnwyd cwestiynau am gyfran yr ymatebwyr o Gymru ac a fyddai'r ymchwil yn cynnig tystiolaeth dda y gellid ei chyflwyno i Gomisiwn y DU ar Brofedigaeth. O ganlyniad i'r drafodaeth, cafodd y rhai a oedd yn bresennol linc i Gomisiwn y DU yn y 'Meeting Chat', a dyma fe eto: Comisiwn y DU ar Brofedigaeth (bereavementcommission.org.uk)

**Trafodaeth: Fframwaith Profedigaeth Cenedlaethol Cymru a Chronfa Gymorth Profedigaeth gwerth £1 miliwn - Janette Bourne (Cruse Cymru)**

Yn un o gyfarfodydd blaenorol y Grŵp Trawsbleidiol, nodwyd pwysigrwydd trafod y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Rhoes Janette Bourne o Cruse Cymru ddiweddariad ar Fframwaith Profedigaeth Cenedlaethol Cymru fel aelod o'r grŵp llywio, dan gadeiryddiaeth Dr Idris Baker (arbenigwr gofal lliniarol) gyda chefnogaeth Gareth Hewitt (Pennaeth Cyflyrau Cronig ac Iechyd Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru).

Amlinellodd hi'r fframwaith a gyhoeddwyd ddiwedd mis Hydref sy'n ceisio cefnogi'r rhai sy'n comisiynu neu'n darparu gwasanaethau profedigaeth, a thynnodd sylw at y ffaith bod cronfa gwerth £1 miliwn wedi'i chreu i gefnogi sefydliadau sy'n darparu prosiectau cymorth profedigaeth ledled Cymru. Nododd fod penderfyniadau yn cael eu disgwyl yn fuan ac i nifer sylweddol o geisiadau gael eu gwneud, rhai ohonynt gan aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol.

Dywedodd hefyd ei bod yn galonogol gweld y lefelau cynyddol o fuddsoddiad a gweithgarwch mewn gwasanaethau profedigaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodrath y DU.

Gofynnodd Altaf Hussain AS a oedd grwpiau ffydd yn rhan o'r grŵp llywio. Dywedodd Janette eu bod nhw a'i bod yn amlwg bod rhai cymunedau yn ei chael yn anodd dod o hyd i gymorth profedigaeth - ac o'i gael, nid oedd o reidrwydd yn briodol i'r ffyrdd y maen nhw'n galaru fel cymuned. Cafwyd trafodaeth hefyd am fynediad ar gyfer grwpiau anabl a rhoddwyd sicrwydd i'r Grŵp y bydd y safon ar gyfer darparu gwasanaethau profedigaeth, ond y sefydliadau a ddewiswyd, yn cynnwys sicrhau eu bod yn hygyrch.

Tynnodd Emma Kneebone sylw at y ffaith bod tîm 2Wish Upon A Star wedi ymweld â'r Senedd ychydig cyn y Nadolig i annog Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i sicrhau y byddai teuluoedd sy'n colli plentyn neu oedolyn ifanc yn annisgwyl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn syth ar ôl y farwolaeth.

**Diweddariad: Cofrestru marwolaeth - diogelu'r hawddfreintiau a gyflwynwyd yn y Ddeddf y Coronafeirws**

Rhoes Rachel Bradburne o'r NAFD ddiweddariad ynghylch yr angen i ddiogelu gwelliannau buddiol o ran cofrestru marwolaethau yng Nghymru a Lloegr a wnaed yn bosibl gan Ddeddf y Coronafeirws.

Nododd fod cofrestru marwolaeth yn draddodiadol wedi bod yn broses bapur a'i bod yn aml yn cael ei llesteirio gan oedi yn y system, sydd ond yn cynyddu'r amser rhwng marwolaeth ac angladd, sydd yn ei dro'n ychwanegu at drallod y teulu sy'n galaru. Roedd yr hawddfreintiau'n caniatáu cyflwyno dogfennau'n ddigidol a chofrestru dros y ffôn, ymsyg camau eraill, ac roedd y pethau hyn wedi cael eu croesawu.

O ystyried y bydd yr hawddfreintiau'n dod i ben pan fydd Deddf y Coronafeirws yn cael ei diddymu, atgoffodd Mark Isherwood bawb ei fod wedi ysgrifennu, ar ran y Grŵp, at y Swyddfa Gartref i ofyn am sicrwydd ynghylch y camau y bydd yn eu cymryd i warchod y buddion a gyflwynwyd ar gyfer pobl mewn profedigaeth. Cafodd sicrwydd bryd hynny ynghylch bwriadau cadarnhaol y Llywodraeth yn y maes hwn.

Fodd bynnag, fel yr eglurodd Rachel, ers hynny, er i'r Llywodraeth nodi'n glir ei hawydd i gadw'r hawddfreintiau buddiol, cafodd Bil Aelod Preifat a gefnogwyd gan y llywodraeth ac a oedd yn bwriadu moderneiddio'r broses a diogelu rhai o'r hawddfreintiau ei siarad allan yn y Senedd yn ei Ail Ddarlleniad ym mis Tachwedd 2021. Roedd yn debygol felly y gallai rhai o'r manteision gael eu colli - hyd nes y gallai'r Llywodraeth ddod o hyd i fecanwaith i'w dwyn gerbron y Senedd unwaith eto.

Adleisiodd Martin Birch siom Rachel ynghylch y diffyg cynnydd o berspectif awdurdodau lleol, gan nodi y bydd dychwelyd i orfod cofrestru yn y cnawd ar ôl machlud y Ddeddf yn ymestyn y broses ar gyfer pobl mewn profedigaeth.

**Diweddariad: Rheoleiddio cynlluniau angladd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol - goblygiadau materion awdurdodi i ddefnyddwyr**

Rhoes Rachel Bradburne, ynghyd â Gordon Swan, ddiweddariad ar y rheoleiddio sydd ar ddod gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gyfer cynlluniau angladdau. Tynnwyd sylw at y problemau posibl i ddefnyddwyr yng Nghymru o ran darparwyr cynlluniau angladdau (a chwmnïau angladdau fel cyfryngwyr) na fyddai'n cael eu hawdurdodi i allu parhau i werthu cynlluniau angladdau erbyn i'r rheoliad ddod i rym ar 29 Gorffennaf 2022.

O ran awdurdodi trefnwyr angladdau i weithredu fel cyfryngwyr, eglurodd Gordon fod Golden Charter yn delio â nifer fawr o gwmnïau angladdau annibynnol a bod pwysau sylweddol ar bawb i gwblhau'r broses mewn pryd gan nad oedd ond tua 25 y cant y cant o'r cwmnïau'n cymryd rhan weithredol yn y broses. Nododd nad oes gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol unrhyw brofiad o ymdrin ag angladdau ac efallai nad oedd wedi deall yn llawn faint o gwmnïau a fyddai'n gorfod cwblhau'r broses. Mae'r Awdurdod yn cael trafferth i gyrraedd ei derfynau amser ei hun. Cytunodd y bydd effaith sylweddol ar ddefnyddwyr os na chaiff cwmnïau eu hawdurdodi mewn pryd.

Cefnogodd Terry Tennens sylwadau Gordon a Rachel a thynnodd sylw at faint y dasg sy'n wynebu cwmnïau angladdau o ran cadw at yr amserlen y mae'r Awdurdod wedi'i gosod iddo'i hun. Mynegodd bryder am y potensial ar gyfer cystadleuaeth annheg rhwng y rhai sy'n gallu cwblhau'r broses mewn pryd a'r rhai sy'n methu.

**Unrhyw fater arall**

Ar ôl trafodaeth, penderfynodd y Grŵp barhau i gyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac y dylid cynnal y cyfarfod nesaf tua mis Mehefin 2022.